
Prosiect X

Llyfr Llafar
gyda
chôd QR

# Adeiladau Trawiadol



DRAKE

Mick Gowar



# Adeiladau Trawiadol





## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Am olygfa! | 2 |
| Maint | 4 |
| Siâp | 7 |
| Defnyddiau | 10 |
| Oed | 16 |
| Adeiladau eraill | 20 |
| Geirfa/Mynegai | 24 |




Mick Gowar
Lluniau'r cymeriadau gan Jon Stuart




# Am olygfa

Mae biliynau o bobl yn byw mewn dinasoedd o amgylch y byd. Mae dinasoedd yn llawn adeiladau anhygoel. Mae'r adeiladau o wahanol siapiau a maint. Edrychwch ar yr holl adeiladau yn y llun yma ...



Golygfa o Lundain.




Beth sy'n gwneud adeilad yn arbennig? Beth sy'n gwneud adeilad yn drawiadol?

# Maint

Ym mis Ionawr 2010 daeth y Burj Khalifa yn adeilad uchaf y byd.

Nendwr ydy e. Cymerodd chwe blynedd i'w adeiladu.

Mae e yn Dubai sydd yn rhan o'r Emiradau Arabaidd Unedig.

Burj yw'r gair Arabeg am dŵr.

Mae'r Burj Khalifa yn 828 metr o ran uchder.


Mae ganddo 160 llawr a 55 lifft. Mae'r lifftiau'n symud ar gyflymdra o 18 milltir yr awr. Nhw yw'r lifftiau cyflymaf yn y byd. Dim ond 60 eiliad mae'n ei gymryd i fynd o'r llawr isaf i'r llawr uchaf.




## Ffaith

Mae tŵr canolog a thair adain. Dyluniwyd yr adeilad ar siâp y llythyren Y.

Dyma adeilad yr *Empire State*. Cymerodd 3400 o bobl flwyddyn i'w adeiladu.




Mae Efrog Newydd yn America yn llawn nendyrau. Yr enwocaf yw'r Empire State. Mae'n 491 metr mewn uchder. Dyma'r adeilad talaf yn Efrog Newydd.


# Siâp



Roedd llyfrgell yn ninas Eifftaidd Alecsandria. Roedd yn cynnwys pob llyfr a ysgrifennwyd mewn Groeg, medden nhw. 2000 o flynyddoedd yn ôl cafodd ei dinistrio gan dân.





Agorwyd Canolfan Mileniwm Cymru ym Mae Caerdydd yn 2004. Mae e wedi cael ei hadeiladu o gerrig, llechi, pren, gwydr a metel o wahanol fannau yng Nghymru. Cafodd y llysenw *Armadilo* oherwydd ei siâp anghyffredin.



Mae'r to crwm yn disgleirio fel aur ym mhelydrau'r haul.





Mae gan y Ganolfan lwyfan mawr lle gall opera, bale, sioeau cerdd a dawns fodern gael eu perfformio. Mae'r ffenestri uwchben y fynedfa ar ffurf llythrennau. Maen nhw'n llunio'r geiriau "Creu gwir fel gwydr o ffwrnais awen."

# Deunyddiau




Mae'r Tŷ Gwydr Enfawr yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Dyma'r tŷ gwydr un haen mwyaf yn y byd. Cafodd ei ddylunio gan y pensaer Prydeinig enwog, Syr Norman Foster. Caiff ei gynnal gan 24 bwa tiwb dur. Mae'r sylfeini concrit wedi'u gorchuddio â glaswellt er mwyn iddo edrych fel bryn bychan.







Caiff ei gynhesu gan belydrau'r haul. Mae ganddo foeler bio-màs sy'n llosgi sglodion pren. Dyma ffordd 'werdd' iawn o gael egni. Mae'r glaw yn cael ei gasglu i ddyfrio'r planhigion.



Dyma'r *Tŷ Potel Calico* yn Anialwch Mojave, California.

Mae adeiladau o wydr yn gyffredin ond mae hwn yn wahanol. Mae wedi ei wneud o filoedd o boteli gwydr!




# Dur a Phlastig


Arena O2 yn Llundain yw'r **gromen** fwyaf yn y byd. Pabell blastig enfawr yw hi, wedi ei hestyn rhwng tyrau dur. *Cromen y Mileniwm* oedd ei henw cyntaf am iddi agor yn 2000. Mae'n cynnwys arena, bwytai a chlwb cerddoriaeth.

# Iâ

Dyma un o'r adeiladau rhyfeddaf yn y byd. Gwesty wedi ei wneud o iâ yw e! Mae popeth wedi ei wneud o iâ - hyd yn oed y gwelyau. Rhaid cael sach gysgu arbennig i'ch cadw'n gynnes.



Bob blwyddyn mae'r gwesty iâ yn toddi. Felly rhaid ei ail-adeiladu. Mae 37 o ystafelloedd gwely. Mae'r gwesty wedi ei wneud o tua 500 tunnell o iâ a 15 000 tunnell o eira! Mae'n edrych yn wahanol bob tro mae'n cael ei adeiladu!




Yn y gwesty iâ


# OEDRAN




Mae Castell Harlech yn un o gestyll enwocaf Cymru. Cafodd ei adeiladu gan frenin Lloegr, Edward I. Cymerodd chwe blynedd i'w adeiladu. Mae'n un o Safleoedd Treftadaeth y Byd. Cafodd ei adeiladu ar ben clogwyn serth uwchben y môr. Petai'r castell yn dod dan warchae, gallai nwyddau o bob math gyrraedd mewn cychod.








Ar furiau'r castell roedd catapyltiau enfawr. Gallai'r rhain daflu cerrig mawr at unrhyw fyddin oedd yn ymosod ar y castell.

Roedd dau fur i'r castell. Rhwng y muriau roedd ffos. Cafodd y mur mewnol ei adeiladu ar ffurf sgwâr gyda thyrau crynion ar bob cornel. Cipiodd Owain Glyndŵr, Tywysog Cymru, Gastell Harlech a bu'n byw yno am bedair blynedd.



Dyma *Byramid y Grisiau*. Hawdd gweld sut y cafodd yr enw!

Rhai o'r adeiladau hynaf yn y byd yw pyramidiau yr Aifft. Pyramid y Grisiau yn Saqqara oedd un o'r adeiladau carreg cyntaf.




Y *Pyramid Tanddwr*

Yn ddiweddar darganfyddwyd adfeilion o dan y dŵr ger arfordir Japan. Cred rhai pobl mai **adfeilion** pyramid ydynt. Mae dros 5000 o flynyddoedd yn hŷn na Phyramid Grisiau yr Aifft.

# Adeiladau trawiadol eraill




Dyma dŷ iawn. Mae yn nhre Sopot yng ngwlad Pwyl. Y *Tŷ Cam* yw ei enw.


Ai robot anferth o'r gofod yw hwn? Nage. Banc yw e! *Banc Asia* yn ninas Bangkok yng Ngwlad Thai.



Dyma **ffatri** yn Ohio, UDA. Beth mae'r ffatri'n ei gynhyrchu, tybed?




Tŷ Potel
Tŵr Burj Khalifa
Gwesty Iâ
Adeilad yr Empire State
Castell Harlech


Pa adeilad ydy'r mwyaf rhyfeddol?
Banc Asia
Pyramid y Grisiau
Tŷ Gwydr
Y Tŷ Cam
Armadilo
Llyfrgell Alecsandria

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **arfdy** | lle i gadw arfau ac arfwisg |
| **cromen** | siâp fel hanner uchaf pêl |
| **daeargryn** | y ddaear yn crynu'n sydyn. Gall ddinistrio adeiladau |
| **ffatri** | adeilad lle mae pobl yn gwneud pethau â pheiriannau |
| **adfail** | adeilad sydd wedi syrthio |
| **nendwr** | adeilad tal iawn |

# Cynnwys


canoldirol 11
catapwlt 17
corwynt 4
iâ 14–15, 22
siâp 7-9
llyfrgell 7
pyramid 18–19